# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC (3)-04-09)

**Dyddiad: 10 Chwefror 2009**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 10 Chwefror 2009. Roedd yr aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Mark Isherwood AC, Janet Ryder AC, Joyce Watson AC a Mike German AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AC. Roedd Dr Dai Lloyd, cyn-Gadeirydd y Pwyllgor ac Anna Daniel, cyn-Glerc y Pwyllgor yn bresennol ar gyfer eitem 4 ar yr agenda: Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig - ystyried y materion allweddol.

### Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC240 - Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Ionawr 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 20 Chwefror 2009.

SLC242 - Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Ionawr 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 18 Chwefror 2009.

SLC243 - Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 26 Ionawr 2009. Fe'i gosodwyd ar 28 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 19 Chwefror 2009.

SLC244 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 4 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 25 Chwefror 2009.

Nododd yr Aelodau mai'r ddeddfwriaeth gywiro a ddeilliodd o'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor wrth iddo ystyried "Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008" yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2009 yw'r rheoliadau hyn (SLC244).

### Unrhyw fater arall

Yn unol â chylch gwaith y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) (hy caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol a chyflwyno adroddiad arno: "pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru") penderfynodd yr Aelodau graffu ar y Mesur Seneddol, Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu, gan roi sylw arbennig i'r materion sy'n gysylltiedig â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cynghorwyr Cyfreithiol baratoi adroddiad ar y pwerau dirprwyedig sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur Seneddol hwn a phenderfynodd ofyn i'r Llywodraeth am wybodaeth berthnasol.

### Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig - ystyried y materion allweddol

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i gyd-drafod casgliadau ac argymhellion yr adroddiad ar yr ymchwiliad.

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**10 Chwefror 2009**